

Rysáit y nefoedd

“...ac yna bod fy mhobl, a elwir wrth fy enw, yn ymostwng ac yn gweddio, yn fy ngheisio ac yn dychwelyd o’u ffyrdd drygionus, yna fe wrandawaf o’r nef, a maddau eu pechod ac adfer eu gwlad.” (adn. 14)

Beth am ddarllen 2 Chroniel 7:11–22 ac yna myfyrio

Ddoe, bu imi ddweud fod tair nodwedd arbennig i Ddiwygiad: 1. ymwybyddiaeth real o bresenoldeb Duw; 2. ymdeimlad dwfn o bechod ac awydd i gefnu arno; 3. dylanwad nerthol ar y gymuned. Mae pob Diwygiad yn cychwyn gyda’r ymwybyddiaeth yma o bresenoldeb Duw. Yn ôl Rick Warren, gweinidog eglwys enwog Saddleback yn California, mae mwy o bobl yn cael eu perswadio i dderbyn Iesu gan yr ymwybyddiaeth o bresenoldeb Duw nag sydd yn dod ato drwy ein cyhoeddi o’r gwirionedd. Boed hynny yn wir ai peidio, mae’n sicr fod fy mhrofiad innau o weld pobl yn dod yn Gristnogion yn tystio i rym ymwybyddiaeth o bresenoldeb yr Arglwydd. Mae hyn yn medru toddi calonnau a chwalu amheuon, ac ochr yn ochr â dysgeidiaeth glir o’r efengyl, fel ag y nodwyd eisoes yn yr astudiaeth yma, gall Duw wneud pethau rhyfeddol.

Wedi dweud hyn i gyd, mae angen adnabod ewyllys Duw hyd yn oed wrth weddio am ddiwygiad. Sylwch yn yr adran a ddarllenwyd o lyfr Croniel, cyn inni geisio diwygiad, cyn gweld gwireddu addewid Duw, mae angen inni ymostwng o’i flaen. Nid yw ceisio diwygiad yn ddigon os yw hynny’n golygu fod darostwng ein hunain yn beth yr ydym yn eithrio rhagddo. Gadewch inni gydnabod yn ostyngedig, gyda phob cymorth technolegol, yr ydym yn ddi-rym i sylweddoli gwaith grymus ohonom ein hunain. Os na fydd yr Arglwydd yn clywed o’r nefoedd, bydd ein hymdrechion yn ofer. Mae ymostwng, ochr yn ochr â gweddi ddyfal, yn hanfodol i’n dyhead am ddiwygiad.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 20:6–7; Eseia 31:1; 64:1–9

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Cymharwch y gwahanol lefydd y mae pobl yn rhoi eu hymddiriedaeth ynddynt?
2. Sut y darostyngodd Eseia ei hun o flaen Duw?

Gweddi

Mae Dy Air O! Dduw yn mynd fel saeth i waelod ein hanawsterau. Cynorthwya ni i osod heibio ein balchder, a cheisio Diwygiad yn ddiwyd a dyfal. Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.